Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 27: wythnos **02/08/2021**

## Cynnydd Wythnosol (26 Gorffennaf - 2 Awst)

**Rydym nawr wedi brechu 88% o boblogaeth y Bwrdd Iechyd gyda'r dos cyntaf ac yn gwneud cynnydd da o ran yr ail ddosau gyda 81% o bobl dros 18 oed wedi'u brechu'n llawn.**

Mae pobl 18-29 oed yn cael eu brechu ar hyn o bryd. Mae llythyrau yn cynnig y brechlyn i bobl ifanc o fewn 12 wythnos i'w pen-blwydd yn 18 oed wedi cael eu hanfon, os nad ydych wedi derbyn un chi eto, cysylltwch â'r ganolfan frechu ar **0300 303 1373**.

## Ddim yn gadael unrhyw un ar ôl...

Mae manylion ein sesiynau brechu Pfizer galw heibio isod:

**Canolfan Gymunedol Ringland**
Canolfan y Dwyrain, 282 Cylch Ringland, Ringland NP19 9PS
Dydd Gwener 6 Awst 2020 Amser: 9am - 5pm
Mae'r clinig galw heibio Pfizer hwn ar gyfer dos cyntaf yn unig ac mae'n agored i unrhyw un 18 oed a h n

**Stadiwm Cwmbrân**
Ffordd Henllys, Cwmbrân NP44 3YS
Dydd Sadwrn 7 Awst Amser: 10am - 3pm
Mae'r clinig galw heibio Pfizer hwn ar gyfer dos cyntaf i unrhyw un 18 oed a h n ac ail ddos i unrhyw un a dderbyniodd eu dos cyntaf o Pfizer ar neu cyn 12 Mehefin

**Swyddfeydd Cyffredinol Blaenau Gwent**
Ffordd y Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6AA
Dydd Sadwrn 7 Awst Amser: 10am - 3pm
Mae'r clinig galw heibio Pfizer hwn ar gyfer dos cyntaf i unrhyw un 18 oed a h n ac ail ddos i unrhyw un a dderbyniodd eu dos cyntaf o Pfizer ar neu cyn 12 Mehefin

**Canolfan Hamdden Trecelyn**
Stryd y Bont, Trecelyn NP11 5FE
Dydd Sadwrn 7 Awst Amser: 10am - 3pm
Mae'r clinig galw heibio Pfizer hwn ar gyfer dos cyntaf i unrhyw un 18 oed a h n ac ail ddos i unrhyw un a dderbyniodd eu dos cyntaf o Pfizer ar neu cyn 12 Mehefin

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 02/08/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

# 834,932

**Cyfanswm y dos cyntaf 436,104**

**Cyfanswm yr ail ddos 398,828**

**Pobl 65 oed a'n hŷn** 96% 95%

**Grŵp 6 (Agored i Niwed)** 91% 86%

**Pobl 60-64 mlwydd oed** 94% 93%

**Pobl 55-59 mlwydd oed** 92% 91%

**Pobl 50-54 mlwydd oed** 91% 88%

**Pobl 40-49 mlwydd oed** 87% 83%

**Pobl 30-39 mlwydd oed** 80% 71%

**Pobl 18-29 mlwydd oed** 79% 53%

## Gweithio mewn partneriaeth gyda GDAS

**O fewn ein hymdrech i ddarparu brechlyn COVID-19 i bobl sy'n ddigartref, sy'n fregus ac yn anodd eu cyrraedd o fewn ardal ein Bwrdd Iechyd, roedd y GDAS yn rhan annatod o'r cydweithio hwn. Mae GDAS wedi darparu eu canolfannau ar draws Gwent, Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen, lle gallai'r tîm brechu ddarparu a rhoi'r brechlyn.**

Mae defnyddwyr y gwasanaeth yn ymddiried yn GDAS. Roeddynt yn teimlo'n gyfforddus o adnabod wynebau tîm GDAS, ac mae'r lleoliad yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch iddynt, rhywle lle maen nhw'n cael eu croesawu a'u derbyn.

Drwy gynnal clinigau galw heibio, rydym wedi gallu brechu merched mewn llochesi, pobl ddigartref, a phobl gyda gorbryder niweidiol, anhwylderau iechyd meddwl sy'n nerfus iawn am fynd i apwyntiad, ac mae staff hyfforddedig wedi gallu egluro ac ateb unrhyw ofnau, er mwyn gallu eu brechu nhw.

Mae GDAS a'r tîm brechu wedi gweithio gyda'r gwasanaeth prawf, sydd wedi cyfeirio y rhai mewn angen atom ni. Mae cysylltiadau wedi'u gwneud gyda lletyau, llochesi, sefydliadau eraill, megis MIND, cynghorau lleol a thai.

Mae Tîm Allgymorth Pendant GDAS hefyd wedi bod yn ganolog wrth ymwneud â'r rhai yn y Podiau neu ar strydoedd Casnewydd a cherddech gyda nhw i'r clinig, tra bod gweddill staff GDAS wedi defnyddio'r dull o weithio trwy eu llwyth achosion i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth am y clinigau sy'n cael eu cynnal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Hoffem estyn ein diolch i dîm GDAS sef Georgina, Kate, Rondine a Martin. Maen nhw wedi agor drysau i ni, wedi ein croesawu a rhoi cyfle i ni wasanaethau'r bobl sydd wedi galw arnom ni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

---

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ynghylch brechu plant rhwng 12 a 17 oed sy'n wynebu risg uwch o gael COVID-19, rydym yn gweithio'n agos â'n cydweithwyr Gofal Sylfaenol i sicrhau ein bod yn adnabod yr holl bobl ifanc hynny sy'n bodoli'r meini prawf angenrheidiol a byddwn yn cynnal clinigau brechu pwrpasol i'r grŵp hwn o 12 Awst ymlaen. Byddwn yn cysylltu â rhieni/neu'r unigolyn ei hun dros yr wythnos nesaf i gadarnhau manylion. Gwnewch yn siŵr fod y manylion cyswllt a gedwir gyda'ch Meddyg Teulu yn gywir a chyfredol. Cael y brechlyn yw'r ffordd orau o amddiffyn eich hun a'ch anwyliaid rhag COVID-19

Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.gov.uk/government/news/jcvi-issues-advice-on-covid-19-vaccination-of-children-and-young-people

---

**Byddwch yn cael egwyl o 8 wythnos rhwng eich dos cyntaf a'ch ail ddos.**

---

Am ragor o wybodaeth, ac i wneud cais am Basport Brechlyn Covid GIG, ewch i: https://llyw.cymru/manteisiwch-ar-bas-covid-y-gig-i-ddangos-eich-statws-brechu-er-mwyn-teithio

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

**Ymunwch â'r miloedd sydd wedi cael eu brechu… Ffoniwch 0300 303 1373 a byddwch yn cael cynnig apwyntiad dos cyntaf o fewn 72 awr.**